
Y Drindod Dewi Sant Diogelu Addysg at y Dyfodol: y rheidrwydd entrepreneuraidd. Cael effaith yn 2020.

Yn sgil pandemig digynsail COVID-19 daeth pob math o bryderon, heriau ac argyfyngau i'n dysgwyr, graddedigion, staff, cyn-fyfyrwyr, cymunedau a'u teuluoedd. Digwyddodd ein cyfnod clo cyntaf yn 2020, rhwng 23 Mawrth a 1 Mehefin, ar adeg sydd fel arfer yn un ddwys iawn o ran cyflwyniadau terfynol a pharatoadau ar gyfer arholiadau ac arddangosfeydd. Bu'n rhaid symud cynlluniau ar gyfer dathlu cyflawniadau ac arddangos ymdrechion creadigol drwy arddangosfeydd diwedd blwyddyn a seremonïau graddio i ffurfiau eraill, rhithwir. Gan fanteisio ar ein talent entrepreneuraidd creadigol, yn 2020, dyma ni'n dysgu'n gyflym; dangos gwytnwch go iawn, cydweithredu a chreadigrwydd, gan addasu'n gyflym.

Yn ogystal â chefnogi ein dysgwyr a'n staff, roedd ein dyletswyddau dinesig yn parhau'n flaenoriaeth uchel, i ddefnyddio ein talent entrepreneuraidd i ymateb i heriau ac anghenion ein cymunedau. Yn eu plith roedd Jo Ashburner, un o raddedigion Patrymau Arwyneb, a lansiodd ymgyrch i ariannu'r gwaith o gynhyrchu a chyflenwi sgrybiau ar gyfer gweithwyr rheng flaen yn y GIG. Daeth dyfeisgarwch a chefnogaeth ein cyn-fyfyrwyr entrepreneuraidd i'r amlwg. Darparodd cwmnïau megis Hozah, a gyd-sefydlwyd gan Naomi Bishop, un o 'n graddedigion dylunio, drwy ei system dalu awtomataidd ar gyfer parcio ceir, ateb parod i'r galwadau am ymyriadau sy'n cyfyngu ar gysylltiadau ac, o'r herwydd, y posibilrwydd o drosglwyddo'r feirws.




Ein cyn-fyfyrwyr entrepreneuraidd oedd yn gyfrifol am y safle a gawsom gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA, 2020) ar gyfer 18/19:

1af yng Nghymru ac yn 2il yn y DU ar gyfer nifer busnesau graddedigion sy'n rhedeg ers 3 blynedd neu ragor. Dyna 550+ o gyn-fyfyrwyr sy’n gwella ac sy’n ategu ein darpariaeth.

Mae’r enghreifftiau'n cynnwys y graddedigion dylunio graffig Heidi Louise Griffiths a Jon Dawkins gyda 'Mayhker', sy’n helpu menywod i ddilyn addysg gyda'u hystod ffasiwn a chynnyrch foesegol. Cafodd y profiadau syrffio a ddarperir gan CIC Surfability UK a sefydlwyd gan y graddedigion chwaraeon Ben Clifford a Ben Room le yn ymgyrch 'Arbennig Plant mewn Angen 2020' hyd yn oed. Rydym mor falch o ddathlu eu camp.




Gan oresgyn digalondid y pandemig a llywio ffordd drwy’r angen am gadw pellter cymdeithasol ar ddigwyddiadau ar raddfa, gorchfygodd GEW2020 yn Y Drindod Dewi Sant y cyfyngiadau a llwyddo i hwyluso cyfres o sesiynau ar-lein amlddisgyblaethol ynghylch entrepreneuriaeth i'n dysgwyr, gan arddangos gwydnwch a chreadigrwydd ein cyn-fyfyrwyr entrepreneuraidd. Mae ein cyn-fyfyrwyr entrepreneuraidd hefyd wedi ysbrydoli a chyfrannu cynnwys ar gyfer ein cyhoeddiad 'Gweithio pethau allan: Canllaw i rai sy’n gweithio’n llawrydd am y tro cyntaf gan Y Drindod Dewi Sant', a lansiwyd yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang. [https://www.ydds.ac.uk/news/press-releases/press-2020/uwtsd-launches-new-guidebook-for-freelancers-to-mark-global-entrepreneurship-week.html](https://www.ydds.ac.uk/news/press-releases/press-2020/uwtsd-launches-new-guidebook-for-freelancers-to-mark-global-entrepreneurship-week.html)




https://issuu.com/trinitysaintdavid/docs/working-it-out

**Ein melin drafod, datgloi potensial entrepreneuraidd**








*Darluniau melin drafod, Karl Mountford, un o'n graddedigion MA*

Gan weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru ac wedi ein llywio gan yr ymchwil gan yr Athrofa Ryngwladol er Ddatblygiad Entrepreneuraidd Creadigol (IICED), ein nod yw rhoi cyfleoedd i bob un o'n myfyrwyr ddatblygu eu cymwyseddau entrepreneuraidd, fel y nodir yn fframwaith Entrecomp, y canllawiau 'de facto' ar gyfer Ewrop y gwnaethom ni helpu i'w datblygu.



Mae creadigrwydd ac arloesedd wrth wraidd cenhadaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant i wella cyflogadwyedd graddedigion a nifer y graddedigion sy'n dechrau busnesau. Ein nod yw defnyddio ein sgiliau, ein gwybodaeth a'n technoleg, gyda'i gilydd, i alluogi'r Brifysgol a'i graddedigion i gynnig atebion i'r heriau cymdeithasol mwyaf brys – yng Nghymru a'r tu hwnt. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i adeiladu cymdeithas gynaliadwy sy'n cael ei gyrru gan arloesedd ac entrepreneuriaeth fentrus.


Mae dysgu arloesol a chydweithio â'r diwydiant yn ffocws allweddol, gan hwyluso rhagor o gyfleoedd i greu gwerth i fyfyrwyr; gan wella eu rhagolygon ar ôl graddio. Mae'r dull unigryw hwn o ddod â myfyrwyr, academyddion a busnesau at ei gilydd yn eu galluogi i archwilio syniadau a chreu cyfleoedd i ddatblygu busnesau, cynhyrchion a gwasanaethau cynaliadwy newydd. Mae'r galluoedd hyn yn arbennig o bwysig mewn busnesau bach, lle mae llawer o raddedigion yn dymuno rhoi hwb i'w gyrfaoedd.

Mae'r Drindod Dewi Sant wedi hen ennill ei phlwyf ym maes datblygiad entrepreneuraidd creadigol. Mae hwn yn gysyniad allweddol i ni. Nid yn unig y mae creadigrwydd yn sgil hanfodol i bawb, ond rydym bob amser yn cofio mai syniadau creadigol yw'r sbardun ar gyfer arloesi. Rydyn ni'n meddwl y tu hwnt i ddechrau busnesau, a'n lens ar draws y daith addysgol gyfan. Adlewyrchir hyn y tu hwnt i'n muriau ffisegol ac mae'n ymestyn allan i'n gwaith mewn ysgolion ac yn datblygu'r cwricwlwm Cymreig newydd.

"Caiff IICED Y Drindod Dewi Sant ei gydnabod yn eang yn un o sefydliadau mwyaf blaenllaw'r byd mewn addysg entrepreneuriaeth sy'n seiliedig ar greadigrwydd. Yn ogystal â bod yn weithgar wrth gynghori llywodraeth y DU ym maes addysg entrepreneuriaeth mae cyhoeddiadau IICED hefyd wedi arwain trafodaethau ar lefel ryngwladol."

Yves Punie, Cydganolfan Ymchwil yr UE 2016

Wrth i'r galw am ddulliau dysgu cyfunol gynyddu'n fyd-eang, rydym wedi ymateb drwy ddatblygu modylau gradd ar-lein o ansawdd uchel, sydd wedi'u targedu at 'briodoleddau graddedigion'. Fe'u datblygwyd mewn cydweithrediad â chyflogwyr ac ar sail sylwadau gan bob grŵp cyfadran, o dan arweiniad fframweithiau, megis 'Entrecomp' ac maent yn ceisio diogelu teithiau ein dysgwyr yn y dyfodol beth bynnag fo'r cyd-destun. Yn ogystal â chefnogi eu datblygiad, drwy lywio dulliau cyflwyno (addysgu, dysgu ac asesu), mae'r tîm menter wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y cynnwys craidd ac allgyrsiol, a oedd yn cynnwys cyfeirio at ddeunyddiau sydd ar gael drwy Syniadau Mawr Cymru. Roedd cymryd rhan yn y modylau, ynghyd â gwybodaeth a ddosbarthwyd mewn cylchlythyrau myfyrwyr, yn hwyluso ein hymgysylltiad â thros 3,000 o'n dysgwyr. Gwnaethom rymuso 484 o fyfyrwyr â gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys gweithdai ysbrydoledig gan fodelau rôl Syniadau Mawr, sy’n cynnwys rhai o’n cyn-fyfyrwyr.





*Y fframwaith priodoleddau graddedigion a ymgorfforwyd yng nghwricwlwm Y Drindod Dewi Sant yn 2020*

### Cydweithredu ar gyfer cefnogi busnesau newydd

Mae cydweithredu'n allweddol i ni. Mae perthnasoedd, sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a chydwerthfawrogi arbenigedd, yn cyfoethogi ein dull o gefnogi a datblygu darpariaeth. Rydyn ni'n yn cynnig cymorth mentora drwy ein swyddogion menter Dylan Williams-Evans (Abertawe) a Hywel Davies (Caerfyrddin a Llambed). Gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru mae gennym yr Hwb Menter, sydd wedi'i leoli yn Yr Egin, yn ogystal â Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymru. Rydym hefyd yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog. Yn 2020, mae 34 o fyfyrwyr wedi rhoi prawf ar fasnachu, 217 wedi datblygu syniadau dechrau busnes, a 50 wedi dechrau busnesau newydd.


Mae ein cymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn a'i anghenion busnes, wedi'i lywio gan ymgysylltiad ac adborth parhaus.

Yn 2020 cyd-sefydlodd Maria Morais, sy'n astudio gyda ni ar hyn o bryd i ychwanegu MA arall at ei phortffolio, Circklo, cwmni ffurfweddu busnesau sy'n arbenigo mewn busnesau newydd digidol ar gyfer yr economi gylchol, a thrwy hyn cawsom gyfle i fanteisio ar arbenigedd ym maes cyfle cyflymu i'n myfyrwyr a'n graddedigion.





## Cydweithredu lleol


Ar lefel leol, drwy gyfarfodydd rhithwir, croesawyd nifer o fusnesau lleol i'n rhwydwaith, gan gynnwys ShipShape, sy'n cyrchu cyllid ar gyfer sefydlwyr busnesau.



Cydweithredu cenedlaethol


Ar lefel genedlaethol, gwnaethom gymryd rhan yn Wythnos Dechrau Busnes – yr Haf ar gyfer Cymru gyfan. Dylan Williams-Evans oedd yn darparu arbenigedd technegol a marchnata, a Kath Penaluna yn cyfrannu gweithdy hawliau eiddo deallusol.  Roedd Marchnad Myfyrwyr Cymru yn gyfrwng gwych i'n myfyrwyr hyrwyddo eu cynnyrch, a Dylan yn cefnogi'r broses uwchlwytho a fetio.




*Wythnos Cychwyn Busnes Yr Haf 2020* *Marchnad Myfyrwyr*

Byddai tîm hyrwyddwyr menter Cymru gyfan yn mynd yn eu blaen i ennill gwobr Catalydd Menter ar gyfer Wythnos Dechrau Busnes - yr Haf yng nghynhadledd flynyddol Addysgwyr Menter y DU ym mis Medi 2020.




Cydweithredu Ewropeaidd

Ar lefel Ewropeaidd, dathlwyd ymrwymiad 'ysgol gyfan' cam 1 cyntaf EntrecompEdu i daith addysg entrepreneuraidd y staff addysgu yn Ysgol Gynradd Dafen, gyda seremoni raddio ar-lein.

Gan weithio ar y cyd â Felicity Healey Benson, ein hyrwyddwr dysgu entrepreneuraidd ac arweinydd prosiect EntreCompEdu, aeth yr ysgol ati i ymwneud yn llawn â'r fframwaith sgiliau a ariannwyd gan Erasmus+, sy'n awyddus i adeiladu eu meddylfryd creadigol ac entrepreneuraidd addysgwyr wrth baratoi ar gyfer her newydd gweithredu'r cwricwlwm yng Nghymru. Cwblhaodd ysgol gyfan o staff y  prosiect 3 mis yn anterth her Covid.




*Addysgwyr Ysgol Gynradd Dafen – Arloeswyr Entrecomp Edu*


https://www.uwtsd.ac.uk/news/press-releases/press-2020/innovative-digital-event-to-celebrate-entrecompedu-phase-1.html

Wedyn roedd Kathryn Penaluna a Felicity Healey-Benson yn gallu rhannu llwyddiant a'r prif bwyntiau a ddysgwyd trwy brofiad Ysgol Dafen o brosiect EntreCompEdu yng nghynhadledd ar-lein Enterprise Educators UK eleni. Yn ogystal â chanolbwyntio ar brosiect EntreCompEdu, y mae'r Drindod Dewi Sant yn bartner arweiniol iddo, o ran cryfhau canllawiau newydd y Cwricwlwm i Gymru a dull dysgu entrepreneuraidd o gynllunio'r cwricwlwm ond ar rôl allweddol prifysgolion o ran helpu i gryfhau'r biblinell fenter.




Drwy ein prosiect Entrepreneuriaeth Celfyddydau a Dyniaethau a ariannwyd dan Erasmus+, gwnaethom ddatblygu a defnyddio adnoddau a gynlluniwyd i adlewyrchu'r cyd-destun Ewropeaidd ar gyfer busnesau newydd i raddedigion yn y disgyblaethau hynny.





*https://www.artshumanitieshub.eu/resources/pricing-your-work/*

## Cydweithredu rhyngwladol

Yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang, gwnaethom gyd-gynnal digwyddiad a gymedrolwyd gan Fiorina Mugione, Cyfarwyddwr Rhanbarthol GSDI, a arferai fod yn Bennaeth Entrepreneuriaeth yn y Cenhedloedd Unedig yr ydym yn cydweithredu'n rheolaidd ag ef. Ymunodd Dawn Lyle, un o raddedigion Y Drindod Dewi Sant (Met Abertawe), cyd-sylfaenydd stiwdio animeiddio ICreate, a chydsylfaenydd '4 the Region' hefyd yn siaradwr, gan gyfrannu at drafodaethau panel ar gefnogi entrepreneuriaeth sy'n canolbwyntio ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy.




Er mwyn i entrepreneuriaeth fynd i'r afael â her cynaliadwyedd, ychwanegwyd tri dull diweddar o ymdrin ag entrepreneuriaeth (eco, dynol a chymdeithasol) at y dull traddodiadol o greu cyfoeth neu elw economaidd.  Mewn ymateb, lansiodd yr Athro David Kirby a hyrwyddwr entrepreneuraidd IICED Felicity y gymdeithas entrepreneuriaeth Harmonious.




Darn o wefan HES

### Cydweithredu ar gyfer datblygu addysgwyr entrepreneuraidd

Wrth gwrs, nid yn unig ar ein dysgwyr y mae angen cymwyseddau entrepreneuraidd. Dangoswyd digonedd o greadigrwydd gan addysgwyr eleni, yn sgil y gweithgareddau ar-lein a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â myfyrwyr a thechnegwyr digidol. Ein myfyrwyr theatr gerddorol a ddarlledodd yn ddigidol yr hyn a fyddai, fel arfer, wedi bod yn gynyrchiadau llwyfan llawn, sydd yma'n canu ‘I’ve got rhythm’.

https://www.facebook.com/watch/?v=3430347330314529



*Myfyrwyr Theatr Gerddorol yn symud i ddarllediadau ar-lein*

Mae'r fenter hon yn ymddangos yn astudiaeth achos yng nghyhoeddiad CCAUC ym mis Hydref 20 'Addysg uwch mewn byd sy'n newid: Addasu mewn amser argyfwng, [https://www.hefcw.ac.uk/cy/newyddion/addysg-uwch-mewn-byd-syn-newid-addasu-mewn-amser-argyfwng/](https://www.hefcw.ac.uk/cy/newyddion/addysg-uwch-mewn-byd-syn-newid-addasu-mewn-amser-argyfwng/) tudalennau 44/45

Yn yr un cyhoeddiad, ar dudalennau 46/49, cafodd ein cynhadledd datblygu staff NEXUS glod am ei fformat digidol. Un o'r cyflwynwyr oedd ein hyrwyddwr dysgu entrepreneuraidd, Felicity Healey Benson, a arddangosodd ganolfan EntLearn, llwyfan a gynlluniwyd i ddarparu fframweithiau ac adnoddau i wella addysg entrepreneuraidd. Cafodd dolen at ei blog lle mae'n adfyfyrio ar y gynhadledd ei chynnwys yn yr erthygl. [https://emergentthinkers.com/2020/07/14/nexus-2020-the-gift-of-connection/](https://emergentthinkers.com/2020/07/14/nexus-2020-the-gift-of-connection/)





*Sleidiau o NEXUS 2020, sy'n arddangos y Ganolfan EntLearn*

## Recriwtio Hyrwyddwyr Menter Academaidd

Fe wnaethom gydnabod Richard Morgan, o'n hadran beirianneg, yn Hyrwyddwr Menter Academaidd (ACE) am iddo fwrw ymlaen â phenodi Jessica Leigh-Jones, MBE, yn Athro Gwadd, gyda chefnogaeth yr Academi Beirianneg Frenhinol, i ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o raddedigion entrepreneuraidd i sbarduno arloesedd mewn gweithgynhyrchu yng Nghymru.




Number: WG41802

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Welsh Government
Consultation – summary of response

A manufacturing future for Wales:
A framework for action

How we should work with industry, trade unions and academia to future proof manufacturing in Wales

Jessica Leigh-Jones MBA, Athro Gwadd, gwella sgiliau entrepreneuraidd mewn peirianneg

Cafodd Dr Shelha Khan ei chydnabod hefyd yn HMA, am ei chyfraniadau, sy'n cynnwys datblygu mentrau i gefnogi'r gymuned BAME.  Rhoddodd Shehla gyflwyniad ysbrydoledig i gynhadledd flynyddol Enterprise Educators UK, ar gynnwys myfyrwyr BAME mewn entrepreneuriaeth, wedi'i llywio gan ei phrofiadau yn cyflwyno'r rhaglen Sgiliau Arwain a Rheoli ar gyfer y Gweithle. Mae'r cyfraniad hwn yn dod â chyfanswm nifer ein HMA, gan ddatblygu disgyblaeth a chyd-destun gweithgareddau entrepreneuriaeth perthnasol i 15.




Dr Shehla Khan, yn cyflwyno yng nghynhadledd flynyddol EEUK

## Crynodeb

I grynhoi, mae'r Drindod Dewi Sant yn ymwneud â chymunedau; rydym yn dysgu gan ein pobl; myfyrwyr, graddedigion, a'n partneriaid, sy'n ein cynnal, ac rydym ninnau yn ein tro yn cynnal eraill drwy ein canfyddiadau.

## Cysylltu a chydweithredu â ni

Gall myfyrwyr, graddedigion, staff neu aelodau o'r gymuned gysylltu'n hawdd ag un clic yn: [enterprise@pcydds.ac.uk](mailto:enterprise@pcydds.ac.uk)